PWYLLGOR MOESEG ANNIBYNNOL
COFNODION Y CYFARFOD

14:00, 10 Gorffennaf 2019, Ystafell Gynadledda'r Dociau

1a. Yn bresennol

Yn bresennol:
Yr Athro Mike McNamee (Cadeirydd)
Mr Mike Lewis
Yr Athro Duncan Lewis
Dr Harriet Pierpoint
Jacqueline Gantley
Joga Singh
Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Jeremy Vaughan
Y Prif Uwcharolygydd Andy Valentine
Lee Jones, Pennaeth Staff, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Jacqui Trow
Yr Uwcharolygydd Martyn Stone
Nia Brennan
Carol Woodward
Y Ditectif Brif Arolygydd Mark Kavanagh
Y Ditectif Gwnstabl Siân O'Shea
Amy Thomas

Yn Cyflwyno Cyfyng-gyngor Moesegol
Yr Arolygydd Stuart Wales, yr Arolygydd Eddie May a'r Rhingyll Mike Maund

Yn Cyflwyno Porth Moeseg:
Chris Woosnam

Ymddiheuriadau:
Y Ditectif Brif Uwcharolygydd Danny Richards
Y Prif Uwcharolygydd Joanna Maal
Y Prif Uwcharolygydd Phil Ashby
Y Ditectif Arolygydd Huw Thomas
Y Rhingyll Sarah Nagle
Y Rhingyll Matthew Hicks
Y Rhingyll Claire Bradbury-Evans

2. Cofnodion a chamau gweithredu

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2019 gydag un diwygiad fel y nodir isod:

- Tudalen 7 – Presenoldeb Gwirfoddol. Dylai hyn nodi fod Harriet Pierpoint wedi egluro ei sylw a ddylai fod wedi nodi "...rhai buddiannau posibl y dull" yn hytrach na 'Nododd nad oedd problem gyda chysyniad y VA' fel y cofnodwyd yn wreiddiol.

RHIF Y CG	CAM GWEITHREDU	PERCHENNOG	STATWS/DIWEDDARIAD
1.	Mae nodyn cymorth cof wedi cael ei ddrafftio ran ar ddyletswydd/ddim ar ddyletswydd a chaiff hwn ei osod ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.	Y Prif Uwcharolygydd Edwards	Nododd y Prif Uwcharolygydd Valentine ei fod wedi gweld yr hyn a oedd wedi'i baratoi ond bod ganddo bryderon o safbwynt Safonau Proffesiynol mewn perthynas â'r dyletswyddau penodol a nodwyd. Eitem wedi'i chyflawni.
2.	Yr Athro McNamee i godi gwaith ar y cyd â'r gwasanaeth ambiwlans yn y Pwyllgor Cenedlaethol. Y Prif Uwcharolygydd Edwards i'w godi hefyd yng Nghyd-grŵp Gwasanaethau Brys Cymru Gyfan.	Yr Athro McNamee	Yr Athro McNamee i'w roi ar waith. Camau Gweithredu Parhaus.
3.	Agenda yn y cyfarfod cyntaf yn 2020 ar gyfer y bleidlais dros Gadeirydd y Pwyllgor Moeseg Annibynnol.	Amy Thomas	Cyfarfod cyntaf 2020.
4.	Grŵp Moeseg Mewnol i ystyried senario ymlid i'w thrafod â'r Pwyllgor Moeseg Annibynnol o bosibl.	Y Prif Uwcharolygydd Andy Valentine	I'w gario ymlaen i gyfarfod mis Medi.
5.	Ystyried pa bwyntiau a gymerwyd o drafodaethau am Bresenoldeb Gwirfoddol tra ar Fechnïaeth a'r awgrymiadau hynny gan y Pwyllgor y gellir eu defnyddio.	Yr Arolygydd Codd, y Rhingyll Knight a Louise Emmitt	Cwblhawyd.
6.	Ystyried p'un a all Grŵp Atebolrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu fod yn ffynhonnell cyfyng-gyngor moesegol.	Lee Jones	Nododd Lee Jones fod hyd wedi'i godi yn y Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd Plismona (PALG) ac y caiff cyfyng-gyngor moesegol eu hystyried ym mhob PALG. Cwblhawyd.
7.	Nodi yn yr Adroddiad Blynyddol 2018/19 bod y cofnodion o'r cyfarfod hwn bellach yn cael eu cyhoeddi'n allanol.	Amy Thomas	Cwblhawyd.
8.	Gwneud cais am gopi o'r fideo moeseg gan Dîm Prif Swyddogion Heddlu Gwent.	Amy Thomas	Cwblhawyd. Mae manylion am fideos 'Aflonyddu Rhywiol yn y Gweithle' wedi cael eu hanfon i Safonau Proffesiynol.
9.	Mae angen i'r rhai a oedd yn bresennol oedd yn awyddus i fynychu'r Gynhadledd Moeseg Genedlaethol ar 26 Mehefin 2019 yn Ryton roi gwybod i Amy Thomas.	Aelodau	Wedi'i gyflawni.
10.	Holi'r Adran Gyfathrebu i gael gwybod faint o safbwyntiau a gafwyd yn sgil fideo briffio'r Pwyllgor Moeseg Annibynnol.	Amy Thomas	Wedi'i gyflawni. Nododd y Pwyllgor fod dros 1,800 o bobl wedi ymweld â'r safle

			mewnrwyd Moeseg yn ystod y 12 mis diwethaf.
11.	Paratoi fersiwn ddrafft o Adroddiad Blynyddol 2018/19 gan y Pwyllgor Moeseg Annibynnol.	Amy Thomas/Yr Athro McNamee	Parhaus.
12.	Trefnu'r cyfarfod nesaf ar gyfer 10 Gorffennaf 2019.	Amy Thomas	Cwblhawyd.

3. Porth Moeseg Newydd

Nododd y Prif Uwcharolygydd Valentine fod y Grŵp Moeseg Mewnol wedi gofyn i'r Adran Gwasanaethau Digidol ddatblygu porth moeseg newydd i'r heddlu. Byddai hyn yn cynnwys trafodaethau cyfyng-gyngor moesegol a bydd y staff yn gallu pleidleisio'n rhyngweithiol o ran cyfyng-gyngor moesegol. Rhoddodd Chris Woosnam o'r Adran Gwasanaethau Digidol gyflwyniad i'r Pwyllgor ar y porth newydd.

Holodd yr aelodau p'un a oedd modd ychwanegu nodyn ar y porth yn rhoi gwybod i'r staff bod y tîm cefn swyddfa yn gallu gweld pwy sydd wedi rhannu yn 'ddienw', er bod yr hyn a rennir yn ddienw i ddefnyddwyr eraill. Nodwyd bod gan Instagram ffenestr naid yn gofyn a yw defnyddwyr yn siŵr eu bod am rannu eu sylw a holodd y Pwyllgor a fyddai modd gosod hyn ar y porth hefyd. Nododd yr aelodau hefyd y gellid dylanwadu ar ganlyniadau pleidleisio os yw'r staff yn gweld yr hyn y mae eraill wedi pleidleisio.

Cadarnhawyd y caiff y porth ei boblogi drwy'r Grŵp Moeseg Mewnol ac y caiff rhai o'r materion eu cyflwyno i'r Pwyllgor Moeseg Annibynnol. Nodwyd hefyd y gallai'r Pwyllgor Moeseg Annibynnol gyfeirio rhai achosion o gyfyng-gyngor i'w defnyddio ar y porth.

5. Cyfyng-gyngor Moesegol

5a. Defnyddio Camerâu Fideo a Wisgir ar y Corff (BWV) mewn achosion o Farwolaethau Sydyn

Cyflwynwyd BWV i'r heddlu fel rhan o gyfarpar gweithredol yn ystod 2017 a gall fod yn effeithiol iawn ar gyfer recordio lleoliad gwrthrychau a thystiolaeth ar leoliad digwyddiad neu wrth chwilio safle.

Mewn achosion o farwolaethau sydyn, gall ymchwilwyr adolygu ac ystyried goblygiadau'r ffilm, er enghraifft, gallai Uwch Swyddog Ymchwilio, Ymchwilydd Safleoedd Troseddau a/neu Batholegydd Fforensig gael gafael ar wybodaeth a thystiolaeth werthfawr ynglŷn â safle a chyflwr yr ymadawedig a'i amgylchedd ar yr adeg orau. Mae gweithdrefn 'marwolaethau sydyn ac anesboniadwy' yr heddlu yn nodi mai'r blaenoriaethau ar gyfer swyddogion yn lleoliad y digwyddiad yw:

- Achub bywyd.
- Cadw lleoliad y digwyddiad fel ag y mae.
- Dod o hyd i dystiolaeth.
- Nodi pwy yw'r dioddefwyr.
- Nodi'r unigolion yr amheuir eu bod wedi cyflawni trosedd

Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal yn ddiweddar ynglŷn â ph'un a dylid ystyried defnyddio BWV mewn achosion o farwolaethau sydyn. Mae BWV wedi cael ei ddefnyddio mewn achos diweddar o lofruddiaeth, lle nad oedd y farwolaeth yn cael ei hystyried yn un amheus pan roddwyd gwybod amdani, a brofodd yn hanfodol wrth brofi datganiadau a fersiynau anghyson yr unigolyn dan amheuaeth. Fodd bynnag, efallai nad yw defnyddio BWV ym mhob sefyllfa o farwolaethau sydyn yn briodol, er enghraifft, materion diwedd oes mewn ysbytai neu achosion terfynol. Mae Atodiad A yn nodi adrannau o'r polisi drafft ar gyfer BWV.

Y cwestiwn/cwestiynau hollbwysig a drafodwyd gan y Pwyllgor Moeseg Annibynnol yw:

- O ganlyniad i nifer y marwolaethau sydyn yn yr heddlu, a'r cymhlethdod o ran penderfynu p'un a yw marwolaeth yn un amheus ai peidio, a ddylai swyddogion gael eu gorfodi i ddefnyddio BWV i recordio ffilm a allai fod yn werthfawr?
- Beth yw'r elfennau moesegol i'w hystyried mewn perthynas â defnyddio BWV mewn achosion o farwolaethau sydyn.
- Ym mhob achos, a ddylai'r defnyddiwr ddefnyddio ei ddyfarniad proffesiynol wrth benderfynu p'un a ddylid recordio rhan o ddigwyddiad neu'r digwyddiad cyfan?

Nododd y Ditectif Arolygydd May fod y polisi'n cael ei ailddrafftio ond nad oedd wedi cael ei drosglwyddo i berchennog busnes eto.

Y pwyntiau allweddol a drafodwyd gan y Pwyllgor oedd:

- Ni fyddai'n bosibl ysgrifennu polisi a fydd yn cwmpasu pob senario ond gellir sefydlu egwyddorion cyffredinol.
- Ceisiwyd eglurhad ar y term 'marwolaeth sydyn'.
- Nodwyd na fyddai gofal diwedd oes yn cael ei ystyried fel marwolaeth sydyn.
- Nodwyd fod BWV yn haen ychwanegol o ddelweddu mewn ymchwiliadau a bod gan y BWV adnodd sain a all fod yn werthfawr. Gellir defnyddio tystiolaeth ysgrifenedig o hyd.
- Nodwyd bod nifer o farwolaethau sydyn yn digwydd yn y gymuned a gall y swyddogion ymateb sy'n cyrraedd lleoliadau digwyddiadau o'r fath yn gyntaf fod yn iau yn y gwasanaeth ac yn llai profiadol o ran y sgiliau sydd eu hangen i fynd i'r afael â marwolaethau sydyn.
- Holodd yr Aelodau am y broses cydsynio. Nodwyd, os na fydd pobl yn cydsynio ond bod y swyddogion ar dir cadarn o ran cymesuredd (ac o fewn telerau Canllawiau Ymarfer cyfredol – gweler isod) yna maent o fewn eu hawliau fel swyddog i barhau i ffilmio.
- Ceisiwyd eglurhad mewn perthynas â marwolaethau amheus a ph'un a yw'r rhain hefyd yn cael eu hystyried fel marwolaethau anesboniadwy. Nodwyd bod yr heddlu'n cyfeirio atynt fel marwolaethau anesboniadwy o hyd ac os yw'n farwolaeth anesboniadwy yna dyna pam y cysylltwyd â'r heddlu. Nodwyd ei fod yn anodd i'r ymatebydd cyntaf wneud penderfyniad mewn achosion o'r fath o ran p'un a yw'r farwolaeth yn un amheus yn syth, dyna pam y mae casglu gwybodaeth yn allweddol mewn achosion o'r fath.
- Gofynnodd yr aelodau p'un a oes polisi ar waith mewn perthynas â pha mor hir i gadw ffilm BWV. Nodwyd bod y gwaith o gategoreiddio ffilm yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, os nad yw aelod o'r staff yn categoreiddio'r dystiolaeth ar ôl 31 diwrnod, caiff ei dileu yn awtomatig. Os caiff ei gategoreiddio fel ffilm dystiolaethol, gellir ei gadw am isafswm o chwe blynedd. Caiff ffilm ei arbed ar evidence.com y mae pob swyddog yn gallu ei ddefnyddio ond, fodd bynnag, gellir gosod Rhestr Rheoli Mynediad ar hwn ac mae yna log archwilio yn nodi pwy sydd wedi edrych ar ddigwyddiadau ac am ba reswm.
- Gofynnodd yr aelodau pa reswm fyddai'n cyfiawnhau swyddog yn ffilmio'r tŷ cyfan ar leoliad marwolaeth sydyn.
- Dywedodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Vaughan bod 2,021 o achlysuron wedi bod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf lle mae galwad wedi dod i law yn ymwneud â marwolaeth anesboniadwy. Mae angen i'r swyddog ymchwilio i hyn a dyna pam y mae yno. Mae'n rhaid i swyddog gasglu tystiolaeth a dyna pam y maent wedi cael eu galw. Dywedodd hefyd bod Canllawiau Ymarfer y Coleg Plismona yn nodi y dylai unrhyw swyddogion sy'n ymateb i farwolaeth anesboniadwy neu sydyn ddefnyddio BWV - mae'r Canllawiau Ymarfer yn nodi y bydd yn rhaid cyfeirio'r achos at y crwner er mwyn ymchwilio iddo mewn achosion lle na ellir cyflwyno Tystysgrif Feddygol ar gyfer Achos Marwolaeth (MCCD). Gallai hefyd fod yn farwolaeth amheus ac felly bydd angen i swyddog yr heddlu sy'n ymateb nodi'r hyn a welir a'r hyn y mae'r swyddog yn ei wneud (ac yn hyn o beth, gwneir cyfeiriad penodol at fideo a gaiff ei wisgo ar y corff, nodiadau, brasluniau ac ati). Dylai swyddogion hefyd archwilio'r lleoliad ar gyfer cyrff/troseddwyr eraill sy'n bresennol neu'n cuddio, penderfynu p'un a oes unrhyw arwydd o dorri i mewn/aflonyddwch ac ati
- Nododd y Ditectif Arolygydd Stuart Wales fod y Tîm Troseddau Mawr yn adolygu'r 'marwolaethau yn yr heddlu' bob 24 awr ac mai rhan fach o'r dystiolaeth yn unig yw ffilmio corff, sy'n dechrau o'r adeg y mae swyddog yn dod allan o gar/cyrraedd eiddo. Dywedodd fod cael golwg gyntaf rhywun fel unigolyn dan amheuaeth yn werthfawr i'r Uwch Swyddog Ymchwilio. Nododd y Ditectif Arolygydd Eddie May nad yw wedi wynebu sefyllfa lle y mae pobl wedi gofyn am droi BWV i ffwrdd.
- Nododd yr aelodau fod cynhwysiant cyfochrog wedi'i gynnwys ym mhwynt 3.6 o bolisi BWV. Fodd bynnag, dylid ymestyn hwn.
- Sefyllfa marwolaeth plentyn - trafododd y Pwyllgor y gallai defnyddio BWV gynhyrfu'r teulu. Nodwyd y byddai hyn yn fater i'r swyddog i'w esbonio'n ddoeth.
- Cwestiynodd yr aelodau p'un a fyddai gwaith ffilmio yn cael ei ddefnyddio yn erbyn swyddog? Cadarnhaodd y Prif Uwcharolygydd Valentine na fyddai, oni bai y ceir cwyn.
- Hysbyswyd y Pwyllgor fod Cyngor ar Arfer 2019 wedi'i gyflwyno gan y Coleg Plismona mewn perthynas â mynd i'r afael â marwolaeth sydyn, annisgwyl. Mae hyn yn nodi bod yna dri llwybr penodol:

- Marwolaeth a ragwelir oherwydd salwch a lle y gall meddyg roi Tystysgrif Meddygol ar gyfer Achos Farwolaeth (MCCD) – dyma'r achosion diwedd oes y mae'r Pwyllgor yn cyfeirio atynt.

- Marwolaeth lle na all meddyg roi MCCD gan nad oedd wedi bod yn trin yr ymadawedig neu oherwydd bod y farwolaeth yn un annisgwyl. Y disgwyliad yw y bydd achosion o'r fath fel arfer yn cynnwys yr heddlu a swyddfa'r crwner, sy'n mynd i leoliad marwolaeth i gwblhau ymchwiliad cychwynnol ar ran y crwner.

- Marwolaeth lle mae canlyniad ymchwiliad yr heddlu yn nodi bod yr achos yn un amheus. Yn yr achosion hyn, mae'r heddlu yn rhoi blaenoriaeth i'r ymchwiliad.

Nododd yr Athro McNamee na all y Pwyllgor ddisgrifio pob achos ond ei fod yn gallu nodi achosion diofyn. Nododd hefyd bod y Pwyllgor yn cytuno â'r syniad o ddewis gorfodol. Y peth diofyn felly fyddai defnyddio BWV mewn achosion o farwolaethau sydyn. Fodd bynnag, dylai fod cymal yn y polisi yn egluro ac yn nodi pryd na ddylid ei ddefnyddio hefyd (e.e. achosion diwedd oes lle y gall meddyg roi MCCD).

5b. Gwasanaeth Amrywiol

Yn 2018, recordiodd HDC 10,518 o droseddau dwyn o siopau, ac roedd gan 4226 (40.2%) o'r rhain ganlyniadau cadarnhaol. O blith y 10518 o ddigwyddiadau, cafodd 7006 (67%) eu graddio fel Gradd 4 (G4). O'r digwyddiadau G4 hyn, methodd **4971** (71%) â chael cyfradd canlyniadau cadarnhaol. O ganlyniad, mae yna gyfle i symleiddio galw rheng flaen drwy ail-werthuso'r digwyddiadau hyn yn y tarddle, gan gymryd bod y broses a gaiff ei chreu yn un gadarn, yn cael ei chyfleu ac yn parhau i ganolbwyntio ar y dioddefwr.

Drwy ddefnyddio technoleg ac addasu ein hymateb traddodiadol i'r materion hyn, gellir gweld buddiannau drwy sicrhau bod y galw yn arwain at ganlyniad cadarnhaol i'r galwr gwasanaeth.

Ar hyn o bryd, mae swyddogion rheng flaen yn ymateb i adroddiadau am droseddau dwyn o siopau, yn chwilio drwy waith ffilmio ac yn anfon lluniau o unigolion dan amheuaeth ymlaen i System Adnabod Wynebau Awtomataidd a Swyddogion Cudd-wybodaeth Lleol er mwyn nodi unigolion dan amheuaeth ac yn aros am ganlyniad cadarnhaol.

Gellir cyflawni'r un canlyniad yn llawer mwy effeithiol drwy ei gwneud yn ofynnol i siopau chwilio drwy eu fideo cylch cyfyng eu hunain ac e-bostio llun o wyneb yr unigolyn dan amheuaeth i'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus. Gall y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus roi'r gwaith wedyn i'r System Adnabod Wynebau/Swyddogion Cudd-wybodaeth i nodi'r unigolyn dan amheuaeth. Bydd pob digwyddiad yn cau fel Gradd 5 (G5) (Datrysiad heb weithredu) ond cânt eu hail-agor a'u dyrannu (G4) pan gaiff unigolyn dan amheuaeth ei nodi'n gywir (gweler Atodiad B).

Mae Tîm Datrys Digwyddiadau'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus wedi defnyddio'r broses hon yn effeithiol, gan arwain at nodi unigolion dan amheuaeth yn llawer cynt a'u dyrannu i Unedau Reoli Sylfaenol o fewn ychydig oriau o roi gwybod. Yn hollbwysig, mae'r broses hon yn atal swyddogion rhag ymateb i droseddau dwyn o siopau lle nad oes unigolyn o dan amheuaeth wedi cael ei nodi, gan arbed amser teithio ac ymchwilio sylweddol a chost y fflyd. Mae hefyd yn sicrhau y caiff ymholiad arestio ei ddyrannu unwaith y mae unigolyn o dan amheuaeth wedi'i nodi, ac mae'n lleihau'r siawns o gamosod eitemau tystiolaethol e.e. fideo cylch cyfyng, bydd 'pecyn arestio' mwy prydlon hefyd yn gwella ein rhagolygon o arestio'r unigolyn o dan amheuaeth ac adfer unrhyw eiddo sydd wedi'i ddwyn.

Awgrymwyd y cynnig canlynol fel ymateb sefydliadol i'r uchod:

- Bydd THRIVE yn parhau i gael ei ddefnyddio gan weithredwyr y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn sicrhau bod y 'galw am wasanaeth' yn cael ei benderfynu ar ei deilyngdod ei hun ac yn cael i ddyrannu'n gywir - cydnabyddir y bydd angen presenoldeb swyddog ar rai unigolion ac yn cael budd o hynny dros eraill e.e. masnachwyr unigol o gymharu â mentrau masnachol mawr/ cwmnïau rhyngwladol. Bydd hyn hefyd yn sicrhau yr eir i'r afael â'r mater o ddioddefwyr sy'n dioddef mwy nag un drosedd drwy gymorth y Tîm Plismona yn y Gymdogaeth leol os yw'n berthnasol.
- Nid yw HDC bellach yn dyrannu swyddogion i droseddau dwyn o siopau lle nad yw unigolyn dan amheuaeth wedi cael ei nodi ac ychydig iawn o risg wedi'i sefydlu. (Gellir ymestyn gan ddefnyddio siart broses os yw'n berthnasol.)

- Gweithredwyr y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus i ofyn i siopau chwilio drwy eu ffilm fideo cylch cyfyng ac anfon e-bost o lun yr unigolyn dan amheuaeth i'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus. Os na ddarperir llun, ni fydd ymchwiliad yn cael ei gynnal. (Gellir ymestyn gan ddefnyddio siart broses os yw'n berthnasol.)
- Pobl sy'n derbyn galwadau yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus i raddio pob achos fel G5 (Datrysiad heb weithredu). Pan ddaw'r lluniau i law, bydd y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhoi'r gwaith i'r System Adnabod Wynebau/Swyddogion Cudd-wybodaeth a byddant ond yn dyrannu os caiff yr unigolyn dan amheuaeth ei nodi. (Gellir ymestyn gan ddefnyddio siart broses os yw'n berthnasol.)
- Mae gan y pwynt uchod ddiben deuol o symleiddio'r broses adrodd am droseddau ar gyfer yr unigolyn a lleihau'r galw ar y llinell 101 a fydd, yn ei dro, yn creu gallu ychwanegol i ddefnyddwyr gwasanaeth eraill, gan wneud ein sefydliad yn fwy hygyrch pan fo angen.

Y cwestiwn/cwestiynau hollbwysig a drafodwyd gan y Pwyllgor Moeseg Annibynnol oedd:

1. A oes modd cyfiawnhau'r defnydd arfaethedig o wasanaeth 'amrywiol' ar gyfer y categori trosedd penodol hwn fel defnydd moesegol?
2. Beth yw'r ystyriaethau y dylai ein prosesau/polisi fod yn seiliedig arnynt, ac a yw ymateb arfaethedig y gwasanaeth yn gymesur ac yn gallu cael ei gyfiawnhau?

Y pwyntiau allweddol a drafodwyd gan y Pwyllgor oedd:

- Nododd yr aelodau fod y term 'Gwasanaeth amrywiol' yn peri problemau a dylid ei ailystyried, gan nodi bod angen blaenoriaethu/defnyddio adnoddau'r gwasanaeth mewn ffordd y gellir ei chyfiawnhau'n foesegol.
- Cwestiynodd yr aelodau sut y byddai'r cyhoedd a swyddogion reng flaen yn dehongli'r cynnig hwn o bosibl. Gwnaethant ddweud bod angen i'r heddlu fod yn glir ynglŷn â'r hyn mae'n ei olygu, efallai hefyd y bydd y manwerthwyr mawr yn achosi oedi drwy fynd i'r wasg o bosibl. Mae angen cynnwys darn Cyfathrebu gyda hwn a gallai hwn achosi niwed i enw da yr heddlu o bosibl.
- Holodd y Pwyllgor a oes unrhyw faterion GDPR yn codi o drosglwyddo gwybodaeth i'r heddlu e.g. delweddau teledu cylch cyfyng – cadarnhaodd Nia Brennan bod defnydd nad yw'n destun GDPR yn cynnwys defnyddio data wrth ymchwilio i drosedd, gorfodi'r gyfraith, a budd diogelwch gwladol.
- Nododd yr Athro McNamee y caiff 'atebolrwydd rhesymoldeb' (A4R) ei ddefnyddio mewn lleoliadau gofal iechyd lle mae dogni'r gwasanaeth yn anochel. Nododd pedwar pwynt sy'n ganolog i ddefnyddio A4R:
    - Cyhoeddusrwydd;
    - cyfiawnhau bod yna gydraddoldeb o ran triniaeth;
    - dull apeliadau;
    - yr angen i fonitro gorfodi 1-3.

  Cynigodd ddosbarthu erthygl mynediad agored yn esbonio'r dull A4R hwn er mwyn ei ystyried ymhellach.
- Nododd y Ditectif Gwnstabl O'Shea y dylai sefydliadau mawr gael teledu cylch cyfyng dibynadwy a chyflogi aelod cymwys o staff a all weithredu'r system deledu cylch cyfyng fel rhan o'i amodau trwyddedu. Holodd y Pwyllgor p'un a oes unrhyw oedi o ran rhesymoldeb siop sy'n ddioddefwr parhaus dros beidio â chael diogelwch priodol ar waith e.e. teledu cylch cyfyng?
- Nodwyd y bydd effaith troseddwr parhaus yn wahanol ar gyfer perchennog siop bach yn hytrach na chwmni mawr.
- Cytunodd y Pwyllgor fod yn rhaid cywiro'r iaith a ddefnyddir gan yr heddlu – yr hyn a gynigir yw dull cydweithredol gwahanol o ddefnyddio'r gwasanaeth er mwyn sicrhau gwasanaeth cyflymach a gwell oherwydd argaeledd ffilm TG a all sicrhau gwell eglurder – nid yw hwn yn wasanaeth o ansawdd gwahanol.
- Holodd y Pwyllgor hefyd ynglŷn â gwerth cael polisi 'dilynol' gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ar gyfer y sefydliadau mawr yn dilyn rhoi'r newid hwn ar waith ac i ddarparu cyngor ar atal troseddau e.e. ail-leoli nwyddau yn y siop a gwell defnydd o'u swyddogaeth diogelwch eu hunain.

Crynhodd yr Athro McNamee fod hyn yn newid i'r polisi a bod angen darn cyfathrebu er mwyn cyflwyno'r gwasanaeth gwell sy'n cael ei gynnig. Roedd y Pwyllgor yn poeni y gallai'r heddlu ymddangos fel petai'n methu yn ei ddyletswydd i ymchwilio i drosedd. Ychwanegodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Vaughan fod galwadau 999

wedi cynyddu yn yr heddlu a'i fod yn waeth yn ariannol na'r hyn a fu yn y gorffennol, ac felly mae penderfyniadau anodd mewn perthynas â'r dulliau defnyddio mwyaf effeithiol a dyrannu adnoddau wedi cael eu gwneud yn ystod yr adegau ariannol hyn. Doedd y Pwyllgor ddim yn gwrthwynebu polisi gwasanaeth amrywiol (teg). Byddai'n ddefnyddiol gweld sut y gallai defnyddio meini prawf A4R gael ei fodelu yn erbyn hyn cyn cefnogi'r polisi yn fwy cadarn. Cynigodd yr Athro McNamee gymorth pellach yn hyn o beth.

Cam gweithredu: Yr Athro McNamee i godi yn y cyfarfod Moeseg Cenedlaethol p'un a oes unrhyw waith wedi'i gynnal yn genedlaethol o ran rhoi gwasanaeth gwahanol i sefydliadau gwahanol. Byddai hefyd yn parhau â'r ddeialog hon gyda'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Vaughan a'r Rhingyll Maund.

6. Diweddariad o'r Cyfarfodydd Moeseg

Nododd y Prif Uwcharolygydd Valentine y cynhaliwyd y cyfarfod Grŵp Moeseg Mewnol ar 13 Mehefin a bod gan hwn strwythur cyfarfod newydd gyda chynrychiolwyr ychwanegol. Dangoswyd y porth moeseg ac roedd yn falch o ddweud bod cyfanswm o ddeuddeg cyfyng-gyngor wedi cael eu cyflwyno i'r Grŵp. Roedd y rhain wedi cynnwys y mater o ddyled nad ellir ei reoli. Fodd bynnag, nid oedd amser yn caniatáu trafodaethau ar bob cyfnyg-gynor a byddent yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf

7. Unrhyw Fater Arall

Cylch Gorchwyl Grŵp Moeseg Heddlu'r DU – UKPEGG

Dywedodd yr Athro McNamee fod yr UKPEGG (Pwyllgor Moeseg Cenedlaethol) wedi drafftio Cylch Gorchwyl ac wedi awgrymu y dylai rhanbarthau a heddluoedd ddefnyddio'r rhain fel sail i'w Cylch Gorchwyl eu hunain er mwyn sicrhau cysondeb.

Cam gweithredu: Nia Brennan i wirio Cylch Gorchwyl UKPEGG yn erbyn heddluoedd er mwyn sicrhau cysondeb.

Gwerthu Arfau Tanio a Atafaelwyd

Nododd yr Athro McNamee fod heddlu Dyfnaint a Chernyw yn ceisio barn heddluoedd yn y DU mewn perthynas â gwerthu arfau tanio a atafaelwyd.

Cam gweithredu: Y Prif Uwcharolygydd Valentine i atgyfeirio'r cyfyng-gyngor moesegol o Werthu Arfau Tanio a Atafaelwyd gan Ddyfnaint a Chernyw i'r Adran Trwyddedau Arfau Tanio ar gyfer ymateb.

8. Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf

11 Medi 2019 am 13:00 yn Ystafell Gynadledda Gŵyr

RHIF Y CG	CAM GWEITHREDU	PERCHENNOG	STATWS/DIWEDDARIAD
1.	Yr Athro McNamee i godi gwaith ar y cyd â'r gwasanaeth ambiwlans yn y Pwyllgor Cenedlaethol.	Yr Athro McNamee	Camau Gweithredu Parhaus.
2.	Grŵp Moeseg Mewnol i ystyried senario ymlid i'w thrafod â'r Pwyllgor Moeseg Annibynnol o bosibl.	Y Prif Uwcharolygydd Andy Valentine	Camau Gweithredu Parhaus.
3.	Paratoi fersiwn ddrafft o Adroddiad Blynyddol 2018/19 gan y Pwyllgor Moeseg Annibynnol.	Amy Thomas/Yr Athro McNamee	Parhaus.
4.	Codi yn y cyfarfod Moeseg Cenedlaethol a oes unrhyw waith wedi'i gynnal yn genedlaethol o ran rhoi gwasanaeth gwahanol i sefydliadau gwahanol. Parhau â'r ddeialog gyda'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Vaughan a'r Rhingyll Maund.	Yr Athro McNamee	Cam Gweithredu Newydd
5.	Gwirio Cylch Gorchwyl UKPEGG yn erbyn yr heddluoedd er mwyn sicrhau cysondeb.	Nia Brennan	Cam Gweithredu Newydd
6.	Atgyfeirio'r cyfyng-gyngor moesegol o Werthu Arfau Tanio a Atafaelwyd gan Ddyfnaint a Chernyw i'r Adran Trwyddedau Arfau Tanio er mwyn cael ymateb.	Y Prif Uwcharolygydd Valentine	Cam Gweithredu Newydd